

Arolygiad o Bractis Meddyg Teulu (Ile rhoddwyd rhybudd)

Meddygfa Glynebwy / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	26
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	31
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	39

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Glynebwy, Stryd James, Glynebwy, NP23 6JG, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 16 Mai 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, adolygydd lleyg, a chymrodor arweinyddiaeth glinigol¹ (yn arsylwi).

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ Mae cymrodorion ymchwil glinigol yn fyfyrwyr meddygol sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd o'u hyfforddiant i ymgymryd â phrosiectau/ymchwil i'w cyfarparu nhw â'r wybodaeth a'r sgiliau i ddod yn arweinwyr meddygol y dyfodol. Deoniaeth Cymru sy'n goruchwyllo'r rhaglen, ar y cyd â GIG Cymru, Llywodraeth Cymru, Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Meddygfa Glynebwy yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ar y cyfan, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd cysylltiadau rhagorol â sefydliadau gwirfoddol a gofalwyr
- Roedd trefniadau ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion ym mhob maes
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, ac roeddent yn hapus yn eu swyddi.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen gwella ymwybyddiaeth staff o gyfraith a pholisi iechyd a diogelwch, a chydymffurfiaeth y practis â'r rhain. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith
- Sicrhau bod cyfarpar priodol a chyflenwad priodol o feddyginiaethau ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol, a bod hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd gorfodol yr holl staff yn gyfredol
- Roedd angen gwneud gwelliannau i'r system rhagnodi meddyginiaethau i sicrhau bod systemau'n ddigon cadarn
- Roedd angen gwelliannau i sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol a bod diwylliant o adrodd a dysgu yn cael ei hybu yn hyn o beth
- Roedd angen gwella rhai agweddau ar reoli'r gweithlu, e.e. cofnodi gwiriadau staff, sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau'n amserol, ac adnoddau ar gyfer rhaglenni sefydlu

- Roedd angen annog a thystio gweithgareddau gwella a rhannu dysgu.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Meddygfa Glynebwy yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 7,000 o gleifion yn ardal Glynebwy ar hyn o bryd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri meddyg teulu sy'n bartner, dwy nyrs practis (ar hyn o bryd un swydd wag a oedd wedi cael ei llenwi), un gwaedydd, un rheolwr practis, a nifer o staff gweinyddol a derbynfa. Roedd y practis wedi bod yn ceisio recriwtio meddyg teulu arall ond nid oedd wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod recriwtio diweddar.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau (fel y nodir ar y wefan) gan gynnwys:

- Imiwneiddio ar gyfer teithio
- Profion gwddf y groth
- Cynllunio teulu
- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Archwiliadau meddygol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd boddhad cleifion yn y practis hwn yn uchel.

Canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd gwybodaeth ar gael i gefnogi cleifion i aros yn iach, ac roedd mecanweithiau ar waith i gefnogi gofalwyr. Roedd cysylltiadau rhagorol â sefydliadau gwirfoddol.

Roedd angen adolygu sawl agwedd ar yr amgylchedd i sicrhau bod preifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal a bod arferion gwaith yn hygyrch i'r holl gleifion.

Ar y cyfan, canfuom fod systemau sefydliadol a chyfathrebu mewnol priodol ar waith. Fodd bynnag, roedd angen adolygu agweddau ar atgyfeiriadau a gwybodaeth rhyddhau cleifion i sicrhau bod systemau yn ddigon cadarn.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar y system apwyntiadau oedd ar waith.

Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i leisio pryderon/gwneud cwynion, ond dylid gwneud gwybodaeth am gŵynion yn fwy gweladwy yn y man aros. Roedd mecanweithiau ar waith i alluogi cleifion i ddarparu adborth.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o naw o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Gwnaethom siarad yn anffurfiol â chleifion hefyd i gasglu eu safbwyntiau. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Maen nhw'n gwneud jobyn ardderchog yma”

"Staff hyfryd"

"Hapus iawn gyda'r practis"

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth ar gael i helpu cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain, a chysylltiadau rhagorol at wasanaethau cymorth i ofalwyr.

Roedd amrediad o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael i gleifion, a ddarparwyd trwy daflenni a phosteri yn y man aros gyda nifer fach o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar wefan y practis hefyd. Roedd gwybodaeth dda am wasanaethau lleol. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion gael mynediad at wybodaeth i'w cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gwnaethom awgrymu bod y practis yn ystyried grwpio'r deunyddiau'n wahanol meysydd/themâu er mwyn ei gwneud yn haws i gleifion ddod o hyd i wybodaeth.

Roedd y practis yn cynnal cofrestr o ofalwyr. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am gefnogaeth a gwasanaethau i ofalwyr, gan gynnwys gwasanaethau lleol. Roedd un aelod o'r staff yn gweithredu fel hyrwyddwr gofalwyr i hybu arfer gorau. Cadarnhaol hefyd oedd nodi bod y gwasanaeth cyngor i ofalwyr lleol yn darparu sesiynau galw heibio yn y practis i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth ar gael.

Gwelsom fod gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu i gefnogi cleifion mewn modd cyfannol, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela a chysylltiadau cryfion â sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys, er enghraifft, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a oedd yn gallu gweld cleifion yn y feddygfa.

Gofal ag urddas

Canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion yn bersonol a dros y ffôn mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chroesawgar. Roedd y staff yn sensitif a gofalg, ac fe'u gwelsom yn mynd allan at y cleifion yn y man aros i gynorthwyo pan oedd angen.

Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn ymdrin â chleifion. Roedd hyn yn golygu bod staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a chanfuom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion wedi cael eu hystyried, a bod yr amgylchedd ffisegol wedi cael ei addasu i gefnogi hyn. Er enghraifft, roedd y dderbynfa wedi ei gwahanu oddi wrth y man aros gan ddesg uchel, a oedd yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu cadw o'r golwg. Gallai'r staff wasanaethu cleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn trwy bwysu dros y ddesg neu gerdded o gwmpas i'r man aros. Roedd rhywfaint o le y tu ôl i'r dderbynfa a oedd o'r golwg ac a oedd yn rhoi preifatrwydd i'r staff a oedd yn defnyddio'r ffôn. Yn ogystal, dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio mannau eraill o'r practis, er enghraifft ystafell ymgynghori wag, i drafod unrhyw faterion sensitif â chleifion i gynnal cyfrinachedd.

Er hyn, canfuom y gallai sgysiau gael eu clywed oherwydd cynllun ffisegol a chyfleusterau seinglosio'r adeilad. Roedd hyn yn arbennig o amlwg wrth eistedd yn y rhan o'r man aros a oedd yn union y tu allan i ystafell y gwaedydd a'r ystafelloedd triniaeth. Canfuom ei bod yn bosibl clywed sgysiau cleifion oddi mewn i ystafell y gwaedydd. Rhaid i'r practis ystyried sut i amddiffyn preifatrwydd cleifion yn hyn o beth, er enghraifft trwy ystyried cerddoriaeth gefndir neu addasiad pellach i'r amgylchedd.

Roedd polisi ysgrifenedig ynghylch y defnydd o hebryngwyr. Roedd adegau pan oedd staff nad ydynt yn glinigol yn gweithredu fel hebryngwyr, ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant yn y swyddogaeth hon. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau gweithio ar waith a oedd â'r nod o amddiffyn cleifion a staff y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion yn cael eu diogelu ar bob amser. Yn benodol, mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i atal sgysiau rhag cael eu clywed yn y man aros pan fo cleifion yn cael eu gweld yn yr ystafell driniaeth/ystafell y gwaedydd.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd hon yn darparu amrediad eang o wybodaeth ddefnyddiol am y practis. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y man aros hefyd. Yn ogystal, roedd gan y practis wefan hefyd, a oedd yn rhagorol a chyfredol, ac a oedd yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron (ar wahân i un) yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, a gwelsom fod y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn amlwg.

Dywedwyd wrthym y gellid cynhyrchu taflen y practis mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais, gan gynnwys print bras a fformat sain. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac mewn fformatau eraill yn ôl anghenion poblogaeth y practis. Dylai'r practis ystyried yn rhagweithiol sut i wneud ei daflen practis yn fwy hygyrch i'r cleifion hynny sy'n siarad ieithoedd gwahanol, neu sydd angen fformatau hygyrch eraill.

Dangosodd ein trafodaethau anffurfiol â chleifion fod y cleifion yn teimlo bod y meddygon a'r nyrsys yn dda wrth egluro eu gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd staff wrthym y gallent ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd pan oedd angen. Roedd dolen sain yn y practis yr oedd newydd ei gosod ac roedd y practis yn bwriadu ei defnyddio i gynorthwyo cyfathrebu â chleifion ag anawsterau clyw. Gwnaethom gynghori y dylai'r staff gael eu hyfforddi'n llawn ar ddefnyddio hon.

Gwelsom fod system sain yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd i alw cleifion i'w hapwyntiadau. Nid oedd ansawdd y sain bob amser yn glir. Gwelsom nad oedd y cleifion bob amser yn gallu clywed y system sain (yn arbennig pan oedd ganddynt anawsterau clyw) neu ddeall yr enw oedd yn cael ei alw. Er nad oedd cleifion wedi methu apwyntiadau o ganlyniad, arweiniodd hyn at oedi gyda'r staff yn gorfod dod allan i'r man aros a galw cleifion.

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ei ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg, felly nid oedd yn bosibl darganfod pa mor aml roedd cleifion wedi llwyddo i siarad Cymraeg â staff. Fodd bynnag, nododd yr holl gleifion yn yr holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur a ydynt yn cael eu holi ynghylch eu problem feddygol wrth geisio trefnu apwyntiad; roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn, gydag ychydig dros hanner y cleifion yn nodi eu bod yn cael eu holi, a'r gweddill yn nodi fel arall. Ar wahân i un claf, dywedodd yr holl gleifion a nododd eu bod yn cael eu holi ynghylch eu problem feddygol wrth geisio trefnu apwyntiad eu bod yn deall y rheswm dros hynny.

Roedd gan y practis systemau sefydledig ar gyfer rheoli cyfathrebu allanol a mewnol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth glinigol a dderbyniwyd yn y practis yn cael ei chofnodi yng nghofnodion y cleifion ac yn cael ei rhannu ag aelodau perthnasol o ddim y practis mewn modd amserol, gan gynnwys gohebiaeth, canlyniadau profion a gwybodaeth am wasanaethau y tu allan i oriau. Roedd system ar gyfer cofnodi unrhyw farwolaethau cleifion.

Roedd systemau negeseua ar waith a oedd yn hwyluso cyfathrebu rhwng aelodau staff.

Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn cael ei chofnodi mewn cofnodion cleifion yn ôl yr angen, heb fod system ar waith i sicrhau bod gwybodaeth allweddol o'r holl grynodedbau rhyddhau wedi'i throsglwyddo ac felly ar gael yn rhwydd ac yn weladwy i'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu ei ddefnydd o'r system sain ar gyfer galw cleifion i'w hapwyntiadau er mwyn sicrhau bod system ar waith sy'n hygyrch i'r holl gleifion, gan gynnwys y rheini ag anawsterau clyw.

Rhaid i'r practis adolygu'r system ar gyfer cofnodi gwybodaeth rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn cofnodion cleifion a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyson, a'i bod yn hawdd gweld y wybodaeth hon yn yr holl gofnodion cleifion yn barhaus.

Gofal amserol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn fodlon iawn ar yr oriau yr oedd y practis ar agor. Gwelsom fod y feddygfa'n ceisio gweld cleifion y tu allan i oriau swyddfa, ac roedd ar agor o 8am tan 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn bersonol yn y practis, dros y ffôn, ac ar-lein. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur yr oedd naill ai'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'u profiad o drefnu apwyntiad yn yr holiadur, dywedodd yr holl gleifion ei fod naill ai'n dda iawn neu'n dda. Gwelsom fod y staff yn agored wrth ddweud sawl claf oedd o flaen yr unigolyn oedd yn mewngofnodi fel bod gan y cleifion syniad o ba mor hir y byddai'n rhaid iddynt aros.

Roedd cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau brys ar yr un diwrnod/y diwrnod wedyn, ac roedd apwyntiadau arferol ar gael hyd at bythefnos ymlaen llaw.

Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn ceisio rhoi apwyntiad i rywun yr oedd arno angen apwyntiad brys ar yr un diwrnod.

Roedd y tîm nyrsio yn cynnal nifer o glinigau i gleifion â chyflyrau iechyd cronig er mwyn iddynt gael y gofal a'r driniaeth roedd eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Roedd polisi atgyfeiriadau ar waith a oedd yn arwain staff wrth iddynt wneud atgyfeiriadau. Dywedodd staff wrthym nad oedd system ar waith ar y pryd i sicrhau bod atgyfeiriadau wedi cael eu derbyn ac wedi derbyn sylw, ac nad oedd cyfraddau atgyfeirio'n cael eu harchwilio yn y practis ar y pryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro a chofnodi atgyfeiriadau, gan sicrhau eu bod wedi cael eu derbyn – yn enwedig pan fydd y rhain yn fater o frys. Dylai'r staff ystyried archwilio atgyfeiriadau gyda'r nod o adolygu systemau cyfredol a gwella arferion pan fydd hyn yn bosibl.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Canfuom fod cleifion yr oedd angen gwiriadau iechyd personol rheolaidd arnynt yn cael cynnig y rhain, gan gynnwys cleifion sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion ychwanegol, er enghraifft cleifion ag anabledau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu trefnu pan oedd hyn yn briodol wrth gynllunio gofal cleifion – er enghraifft, ar gyfer y cleifion hynny ac arnynt angen gofal lliniarol.

Gwelsom fod y cleifion hynny ag anghenion ychwanegol wedi'u hamlygu ar y system electronig fel modd o rybuddio staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnig apwyntiadau hirach i gleifion pan oedd angen er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Hawliau pobl

Disgrifiodd y staff nifer o ffyrdd yr oeddent wedi gwneud pob ymdrech i ddiwallu anghenion unigol cleifion drwy gydol taith y claf.

Gwelsom fod hawliau cleifion ynghylch casglu data wedi'u hesbonio ar wefan y practis. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cyhoeddi hyn yn y manau aros hefyd. Roedd y staff i gyd wedi llofnodi cytundebau cyfrinachedd a oedd yn

dangos eu bod wedi cael eu hysbysu am eu cyfrifoldebau ynghylch diogelu gwybodaeth bersonol cleifion.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar waith i gleifion leisio pryderon a chŵynion. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion 'Gweithio i Wella', sef y trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r Cyngor Iechyd Cymuned fel gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer gwneud cwynion.

Prin oedd y wybodaeth am gŵynion a oedd yn cael ei harddangos yn y man aros, ar wahân i rai taflenni 'Gweithio i Wella' cyffredinol. Roedd hyn yn golygu y gallai mynediad at y wybodaeth hon, ar y cyfan, gael ei gwella ar gyfer y cleifion hynny sy'n ymweld â'r practis. Roedd holiaduron cleifion yn adlewyrchu hyn, a dywedodd dau draean o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu leisio pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis. Roedd gwybodaeth lawn a chynhwysfawr am wneud cwynion ar y wefan.

Gwelsom fod y staff yn cynnal cofnodion o gŵynion ac, wrth archwilio rhai o'r cofnodion, gwelsom eu bod wedi derbyn sylw o fewn yr amserlenni penodedig; pan oedd amserlen wedi cael ei methu, roedd eglurhad llawn wedi cael ei roi i'r claf.

Roedd systemau a mecanweithiau ar waith i alluogi cleifion a gofalwyr i ddarparu adborth am wasanaethau. Roedd blwch awgrymiadau ac roedd y staff yn cynnal holiaduron blynyddol â'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud newidiadau o ganlyniad i wrando ar adborth, er enghraifft gan osod y peiriannau hunan-fewngofnodi. Gwnaethom argymhell bod y staff hefyd yn ystyried sut i gyfleu i'r cleifion y newidiadau yr oeddent wedi'u gwneud o ganlyniad i wrando ar eu hadborth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai gwybodaeth am gŵynion gael ei harddangos yn weladwy a bod yn hawdd i gleifion gael mynediad ati.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion, ond roedd angen rhoi sylw i rai gofynion iechyd a diogelwch ac o ran sicrhau bod systemau mewnol yn ddigon cadarn.

Rydym wedi gofyn i'r practis wella iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli risg ar draws nifer o feysydd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod asesiad risg tân cyfredol ar waith a bod cyfarpar a meddyginiaethau priodol i reoli argyfyngau meddygol.

Canfuom fod trefniadau rheoli heintiau addas ar waith ac, er bod angen rhoi rhywfaint o sylw i'r polisi, gwelsom fod gwelliannau'n cael eu gwneud yn ymarferol yn y maes hwn.

Roedd angen gwelliannau i'r system rhagnodi meddyginiaethau i sicrhau bod systemau'n ddigon cadarn.

Roedd polisiâu amddiffyn plant ac oedolion cynhwysfawr ar waith, ond ni allem fod yn sicr bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol yn y meysydd hyn.

Roedd angen gwelliannau i sicrhau bod digwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi wrth iddynt ddigwydd, ac roedd diwylliant o adrodd a dysgu'n cael ei hybu yn hyn o beth.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu o safon dda, gyda rhai agweddau y gellid eu gwella.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gofynnwyd i gleifion pa mor hawdd roeddent yn ei chael hi i fynd i mewn i'r adeilad yr oedd y practis meddygon teulu ynddo. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn hawdd mynd i mewn i'r adeilad. Fodd

bynag, roedd sylw a dderbyniwyd yn yr holiaduron yn nodi nad oedd mynediad i'r adeilad yn hawdd iawn ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn:

"Anodd mynd i mewn ac allan trwy'r drws blaen. Mae ramp bach a dau ddrws i fynd trwyddynt nad oes ganddynt system agor."

Cadarnhaodd ein harsylwadau ar y dydd fod cleifion (yn arbennig y rheini â chadeiriau gwthio neu sy'n defnyddio cadeiriau olwyn/sydd ag anghenion symudedd) ar brydiau'n profi trafferth o ran cael mynediad, mewn ffyrdd a nodir yn y sylw uchod. Dylai'r practis adolygu hyn, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau. Gwelsom fod yr holl wasanaethau i gleifion yn cael eu darparu ar y llawr daear, a oedd yn golygu nad oedd yn rhaid i gleifion ddringo grisiau unwaith yr oeddent yn yr adeilad, ac roedd cyfleusterau toiled i bobl ag anabledd ar gael. Roedd arwyddion clir i arwain cleifion.

Yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis, gwelsom fod yr holl fannau a ddefnyddiwyd gan y cleifion yn lân ac yn glir o annibendod, a oedd yn lleihau'r perygl o faglu neu syrthio. Roedd adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n addas, y tu allan a'r tu mewn.

Er bod canllawiau ar gael ac ambell bolisi unigol a oedd yn ymwneud ag agweddau ar iechyd a diogelwch, nid oedd polisi iechyd a diogelwch cyffredinol ar waith ar y pryd. Mae angen polisi sy'n ymdrin â'r holl feysydd gorfodol er mwyn sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn eu cyflawni mewn perthynas â chyfreithiau iechyd a diogelwch, ac i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r meysydd gorfodol. Gwnaethom argymhell bod y staff yn ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

Canfuom fod polisi cyfarpar sgrin arddangos yn y practis. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cael cynnig asesiad risg ffurfiol o'u gweithfan/ardal eu desg na chymorth o ran sut i gwblhau asesiad unigol.

Gwelsom fod asesiad risg amgylcheddol wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror 2017 i sicrhau bod risgiau yn amgylchedd y practis wedi cael eu hasesu'n llawn a bod camau gweithredu wedi'u monitro a'u cymryd i leihau'r risgiau hynny. Roedd system ar waith mewn perthynas â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwelsom fod rhywfaint o offer diogelwch tân wedi cael eu gosod yn ddiweddar iawn, er enghraifft diffoddwyr tân. Roedd y llyfr lòg tân yn dangos bod gwiriadau larwm tân yn digwydd yn fisol. Roedd gofyn i raglen ffurfiol o arolygiadau rhestredig a gwiriadau gael ei rhoi ar waith ar gyfer yr holl offer tân yn barhaus.

Rhaid i'r practis geisio cyngor ynghylch hyn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân.

Canfuom nad oedd asesiad risg tân ar waith, fel y mynnir dan reoliadau iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod risgiau tân wedi cael eu hystyried yn llawn i gynnal diogelwch cleifion a staff yn amgylchedd y practis. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis ar unwaith wedi'r arolygiad, gan fynnu bod camau adferol brys yn cael eu cymryd. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Canfuom fod risgiau parhad busnes wedi cael eu hystyried a bod cynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith i reoli risgiau. Fodd bynnag, canfuom fod tri chynllun parhad busnes gwahanol o gwmpas y practis gyda gwahanol wybodaeth ac roedd angen i'r holl wybodaeth gael ei hel at ei gilydd mewn un polisi canolog, clir, cyfredol. Canfuom fod diffyg cofrestr risgiau'r practis i adolygu'n ffurfiol risgiau'r practis.

Gwnaethom wirio cyfarpar brys a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn y practis i archwilio sut roedd argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli. Canfuom stoc a oedd wedi mynd ymhell i'w dyddiad yn y cwdyn cyfarpar dadebru, gan gynnwys bagiau Ambu, ategiadau llwybr anadlu, nodwyddau, caniwllâu, a dyfais sugno â llaw. Ni allem fod yn sicr bod system briodol ar waith ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau i'w defnyddio fel cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng. Ni allem fod yn sicr y byddai'r stoc gyfredol o gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn caniatáu ymarfer diogel wrth reoli argyfyngau meddygol. Ni allai'r practis ddangos ei fod wedi ystyried addasrwydd yr holl gyffuriau a gedwir na'r dulliau y byddai angen eu defnyddio wrth roi'r cyffuriau hynny mewn argyfwng. Canfuom hefyd un daflen feddyginiaethau rydd (heb ddyddiad arni). Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ddiwethaf ym mis Ebrill 2016, ac roeddent i fod i gwblhau hwn eto ym mis Medi 2017. Argymhellir diweddariadau blynyddol. Mae hyn yn gadael bwlch o bum mis rhwng mis Ebrill 2017 a mis Medi 2017 pan na fydd y staff yn gyfredol o ran diweddariadau blynyddol gorfodol. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y pwyntiau hyn yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu mynediad i'r adeilad er mwyn sicrhau bod yr anawsterau a brofir gan gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn cael eu datrys.

Roedd gofyn i raglen ffurfiol o arolygiadau rhestredig a gwiriadau gael ei rhoi ar waith ar gyfer yr holl offer tân yn barhaus. Rhaid i'r practis geisio cyngor ynghylch hyn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân.

Rhaid i'r practis sicrhau bod asesiad risg tân, a gynhelir gan weithiwr proffesiynol digon cymwys, yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. Dylai asesiadau risg tân gael eu cadw'n gyfredol a'u monitro, gyda chamau gweithredu i leihau risgiau yn yr amgylchedd ar waith yn barhaus.

Rhaid i'r staff sicrhau bod cynlluniau parhad busnes yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am sut i reoli risgiau.

Mae angen adolygu'r system ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau i'w defnyddio fel cyffuriau brys i sicrhau ei bod yn briodol.

Mae angen adolygu cynnwys y blwch cyffuriau brys yn llawn i sicrhau ei fod yn galluogi ymarfer diogel wrth reoli argyfyngau meddygol. Rhaid i'r practis geisio cyngor ynghylch cynnwys y blwch i sicrhau bod meddyginiaethau priodol i reoli argyfyngau oedolion a chleifion pediatrig. Rhaid cael gwared ar feddyginiaeth rydd sydd yn y blwch. Mae angen tynnu nodwyddau a chaniwlâu y mae eu dyddiadau wedi mynd heibio.

Rhaid i'r practis sicrhau bod system ar waith i wirio, monitro, adolygu a newid (pan fo angen) cyfarpar brys a stoc cyffuriau brys yn barhaus.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn aros yn gyfredol o ran hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Rhaid i'r staff asesu'r risgiau cysylltiedig â'r blwch pum mis o ran eu hyfforddiant diweddarau blynyddol a sicrhau bod y tîm wedi'i hyfforddi'n ddigonol i ymdrin ag argyfyngau meddygol yn ystod y cyfnod hwn.

Atal a rheoli heintiau

Canfuom fod amgylchedd y practis yn lân. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol, megis menig a ffedogau untro plastig, er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd y manau triniaeth glinigol i'w gweld yn lân. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn y manau clinigol ac yn y cyfleusterau toiled. Roedd digon o hylif glanhau dwylo ar gael o amgylch y practis hefyd.

Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir.

Roedd system ar gyfer storio gwastraff clinigol yn ddiogel tan y gellid ei gasglu'n ddiogel.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith yr oedd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyflawn. Fodd bynnag, roedd polisiâu manwl, cysylltiedig a oedd yn ymdrin â nifer o agweddau ar reoli heintiau ac a oedd yn rhoi manylion pellach i lywodraethu arferion gweithio'r staff. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant rheoli heintiau'n cael ei gynnal, ond nid oedd bob amser yn cael ei gofnodi'n ffurfiol. Gwnaethom gynghori'r staff i gofnodi hwn fel llwybr archwilio. Roedd archwiliad rheoli heintiau wrthi'n cael ei gwblhau i godi ymwybyddiaeth o unrhyw risgiau rheoli heintiau yn yr amgylchedd. Gwelsom fod newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r archwiliad – er enghraifft, defnyddio llenni tafladwy mewn ystafelloedd triniaeth. Roedd cynlluniau i newid y carped mewn mannau clinigol â lloriau haws eu golchi. Roedd y nyrs arweiniol ar gyfer rheoli heintiau wedi gadael yn ddiweddar, a gwnaethom gynghori'r practis i ystyried sut y byddai arferion gorau'n parhau i gael eu gweithredu.

Dywedodd uwch-staff wrthym fod disgwyl i'r holl staff clinigol sicrhau eu bod yn derbyn brechiadau Hepatitis B. Roedd cofrestr ganolog ar waith i gofnodi hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r polisi rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gyflawn. Dylai'r staff dderbyn hyfforddiant rheoli heintiau a dylid cofnodi tystiolaeth o hyn.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuom fod angen adolygu'r trefniadau ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau'n ddiogel i gleifion er mwyn sicrhau bod systemau'n ddigon cadarn.

Roedd gan y bwrdd iechyd fferyllydd a oedd yn darparu cefnogaeth i'r practis yn ôl yr angen ac yn cefnogi'r practis ag archwiliadau.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy trwy alw yn y feddygfa yn bersonol, a thrwy'r post.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd system ffurfiol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau nad oedd eu hangen mwyach yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr presgripsiynau amlroddadwy, ac nid oedd y staff yn glir o ran y llyfr fformiwlâu² oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd.

Gwelsom nad oedd gwallau rhagnodi bob amser yn cael eu cofnodi fel digwyddiadau arwyddocaol, er eu bod yn cael eu nodi mewn nodiadau cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod pryderon ynghylch y ffaith nad oedd adweithiau andwyol i gyffuriau yn cael eu hadrodd ar hyn o bryd. Roedd hyn yn golygu nad oedd adroddiadau priodol yn digwydd, ac nid oedd unrhyw bethau a ddysgir o'r digwyddiadau hyn yn cael eu rhannu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r staff sicrhau bod system ar waith i dynnu meddyginiaethau nad oes eu hangen mwyach oddi ar y rhestr presgripsiynau amlroddadwy.

Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r llyfr fformiwlâu sy'n berthnasol i'w gwaith a meddu ar wybodaeth amdano. Rhaid i'r practis roi cadarnhad i AGIC o'r llyfr fformiwlâu mae'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Rhaid i'r staff adrodd am wallau rhagnodi fel digwyddiadau arwyddocaol, a rhaid iddynt sôn am adweithiau andwyol i gyffuriau.

Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Roedd polisi amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar waith, a oedd yn gynhwysfawr, yn gyfredol, ac yn cynnwys rhifau cyswllt lleol ar gyfer adrodd.

Gwelsom nad oedd rhai o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion. Dywedodd uwch-staff wrthym fod clinigwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu ar ddiwrnodau astudio, ond nid oeddent yn gallu cadarnhau a oedd clinigwyr wedi derbyn hyfforddiant hyd at Lefel 3 (sydd bellach yn ofynnol). Ni allem fod yn sicr, felly, bod yr holl staff wedi cwblhau lefelau priodol o hyfforddiant yn unol â'u swyddi.

² Mae'r llyfr fformiwlâu yn rhestru'r holl feddyginiaethau cymeradwy i'w defnyddio mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Gwnaethom edrych ar y broses a oedd ar waith ar gyfer nodi achosion diogelu plant ac oedolion ar y system electronig, a chanfuom fod hon yn briodol. Gwelsom fod gweithio amlddisgyblaethol yn digwydd ynghylch pryderon diogelu plant, a bod cyfarfodydd rheolaidd i rannu gwybodaeth a thrafod achosion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed cyfredol ar lefel sy'n briodol i'w swyddi. Mae hyn yn cynnwys y staff i gyd, a bellach mae gofyn i glinigwyr dderbyn hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 3.

[]

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd systemau i hwyluso'r gwaith o adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Fodd bynnag, canfuom yn y practis gyfraddau isel o adrodd am ddigwyddiadau, ac ni allem fod yn sicr bod problemau neu ddigwyddiadau sy'n peri pryder yn cael eu hadrodd yn briodol fel digwyddiadau arwyddocaol.

Roedd y staff yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau arwyddocaol, a gwelsom eu bod dim ond wedi adrodd am ddau ddigwyddiad yn y flwyddyn ddiwethaf. Trwy ein harolygiad o gofnodion a'r system ragnodi, canfuom fod digwyddiad rhagnodi diweddar wedi cael ei gofnodi yng nghofnodion y claf ond nid oedd wedi cael ei gofnodi fel digwyddiad arwyddocaol. Canfuom fod cyndynrwydd i adrodd ac, o'r herwydd, lefel isel o adrodd gan y practis. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw ddysgu y gellid ei wneud o ganlyniad i ddigwyddiadau diogelwch cleifion neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn cael ei ddisbarthu ymhlith tîm y practis, am nad oedd digwyddiadau'n cael eu rhannu a'u hadrodd yn briodol.

Pan oedd cyfarfodydd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cynnal, roeddent yn cynnwys yr aelodau staff cysylltiedig â'r digwyddiad. Fodd bynnag, nid oedd system ffurfiol ar y pryd ar gyfer dosbarthu unrhyw ddysgu ymhlith y tîm ehangach yn dilyn y cyfarfod hwn, a gwnaethom gynghori'r staff i ystyried sut y gallent rannu dysgu ac annog gwelliannau gwasanaeth yn hyn o beth.

Roedd system ar waith ar gyfer anfon rhybuddion am ddiogelwch cleifion at glinigwyr pan oedd y rhain yn berthnasol i ofal sylfaenol. Dywedodd y staff wrthym nad oedd canllawiau newydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi'u trafod yn ffurfiol, a gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried gwneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn adrodd am bob digwyddiad diogelwch cleifion a phob digwyddiad arwyddocaol yn briodol. Dylid annog a hybu diwylliant o ddysgu yn sgil digwyddiadau.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar hapsampl o gofnodion electronig cleifion ac, ar y cyfan, canfuom safon dda o gadw cofnodion.

Roedd y cofnodion gwnaethom eu hadolygu yn gyfredol, yn gyflawn, a chanddynt lefel dda o fanylion. Roedd y cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth sylfaenol allweddol sydd ei hangen, megis dyddiad, amser, enw'r mewnbynwr ac ati, a oedd yn sicrhau bod llwybr archwilio clir.

Canfuom fod clinigwyr yn cofnodi'n gyson pan oeddent wedi derbyn cydsyniad gan gleifion. Gwnaethom adolygu'r polisi cydsynio a chanfod bod angen ei ddiweddarau i sicrhau ei fod yn gyfredol o ran y ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion ddiweddaraf, e.e. dyfarniad Montgomery.³

Canfuom nad oedd cyffuriau a ragnodwyd i gleifion yn cael eu cysylltu'n gyson â chyflyrau, ac roedd angen gwella hyn.

³ Mae dyfarniad Montgomery yn ddyfarniad gan y Goruchaf Lys a newidiodd y gyfraith ar gydsyniad gwybodus. Rhaid i feddygon sicrhau yn awr bod cleifion yn ymwybodol o unrhyw "risgiau materol" sydd ynghlwm wrth driniaeth arfaethedig, ac o opsiynau rhesymol eraill, yn dilyn y dyfarniad yn yr achos Montgomery yn erbyn Bwrdd Iechyd Swydd Lanark.

Ar y cyfan, roedd angen adolygu'r trefniadau ar gyfer codio cofnodion cleifion i sicrhau bod cysondeb. Canfuom nad oedd codau Read⁴ yn cael eu nodi'n gyson ar yr holl ffactorau morbidrwydd, risg neu broblemau newydd.

Pan oedd cleifion yn dioddef o gyflyrau arwyddocaol a thymor hir, canfuom fod cofnodion yn cynnwys crynodebau llawn o'r cyflyrau hyn, a oedd yn golygu bod gwybodaeth gefndirol ddefnyddiol ar gael i lywio ymgynghoriadau.

Roedd cofnodion clir ynghylch yr arwyddion ar gyfer defnyddio neu derfynu meddyginiaeth.

Ar y cyfan, roedd y nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng staff clinigol a chleifion, ac roedd yn bosibl dirnad canlyniad yr ymgynghoriadau a'r cynllun gofal ar gyfer y claf. Fodd bynnag, canfuom ar y cyfan fod angen adolygu crynodebau cleifion i sicrhau cysondeb o ran ansawdd.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau o ran triniaeth; fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei chynnig i gleifion. Rhoddodd y staff sicrwydd i ni eu bod yn gwneud hyn, ond nid oeddent bob amser yn cofnodi hyn. Gwnaethom gynghori y dylent gofnodi pan wnaed hyn i gefnogi llwybr archwilio.

Gwelsom nad oedd cofnodion yn cael eu hadolygu na'u harchwilio o ran ansawdd, a gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried gwneud hyn i annog safonau da o gadw cofnodion ymhellach, ac fel ffordd o ddysgu a gwella arferion.

⁴ Codau Read yw'r system safonol ar gyfer terminoleg glinigol sy'n cael ei defnyddio ym maes ymarfer cyffredinol yn y DU. Mae'n cefnogi amgodiad clinigol manwl o ffenomenau cleifion lluosog, gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion clinigol, symptomau ac arsylwadau; profion labordy a chanlyniadau; diagnosis; gweithdrefnau diagnostig, therapiwtig neu lawfeddygol a wnaed; ac amrywiaeth o eitemau gweinyddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid diweddarau'r polisi cydsynio i sicrhau ei fod yn gyfredol o ran y ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion ddiweddaraf, e.e. dyfarniad Montgomery.

Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y gwneir gwelliannau i'r gwaith o gadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- Bod yn gyson wrth gysylltu cyffuriau a ragnodir â chyflyrau cleifion
- Cysondeb o ran nodi codau Read
- Mae angen adolygu crynodebau cleifion i sicrhau cysondeb o ran ansawdd
- Cofnodi pan fo gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu ar gyfer cleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd llinellau rheolaeth ac atebolrwydd clir yn y practis. Roedd angen annog a thystio gweithgareddau gwella a dysgu ar y cyd. Roedd angen gwelliannau o ran sicrhau bod polisiau cyfredol yn hawdd mynd atynt, yn cael eu diweddarau, ac yn cael eu cyfleu i'r staff yn barhaus.

Canfuom dîm staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis sicrhau bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer yr holl staff, bod gwiriadau ar gyfer aelodau newydd o staff yn cael eu cofnodi, a bod y staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn brydlon. Gellid gwella adnoddau a phe cynnau'r rhaglen sefydlu hefyd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd rheolwr practis a oedd yn rheoli'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd, a llinellau rheolaeth ac atebolrwydd clir. Canfuom dîm o staff a oedd yn ymroddedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer eu cleifion. Roedd rhai staff wedi bod yn gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn, ac felly'n darparu lefel uchel o gysondeb. Roedd y staff yn gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent yn ei derbyn gan y staff rheoli. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod yr amgylchedd gwaith yn un agored a'u bod yn hyderus y byddai unrhyw faterion a godir ganddynt yn cael eu datrys.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu lleisio pryderon, a bod polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith a oedd yn nodi llwybrau i staff wneud hynny.

Roedd gan y practis amrediad o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i arwain y staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o ddyblygu polisiau, ac nid oedd y staff bob amser yn eglur ynghylch pa un oedd yn llywodraethu eu harferion gweithio. Roedd angen

gwneud rhywfaint o waith pellach hefyd o ran trefnu polisïau, gweithdrefnau a chofnodion er mwyn caniatáu mynediad hawdd atynt. Ni allem fod yn sicr bod polisïau'n cael eu cyfleu i'r staff yn rheolaidd.

Roedd rhai o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis yn ysgwyddo rolau deuil. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu cyflenwi dros ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o amharu ar wasanaethau i gleifion.

Gwelsom fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn fisol i helpu i hwyluso cyfathrebu rhwng y tîm. Er i'r staff rheoli ddisgrifio heriau wrth sicrhau y gallai'r staff i gyd fynychu'r cyfarfodydd hyn, roedd y staff yn gallu cyfrannu at y cyfarfodydd hyn mewn ffyrdd eraill, ac roedd cofnodion ar gael i'w harchwilio. Canfuom fod diffyg cyfarfod/fforwm ffurfiol lle gellid trafod achosion clinigol, a gwnaed hyn ar sail fwy anffurfiol ymhlith clinigwyr. O ganlyniad, roedd diffyg tystiolaeth o'r drafodaeth am feysydd clinigol a/neu rannu dysgu yn sgil digwyddiadau neu arfer gorau cysylltiedig â gofal cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried ffurfioli a chofnodi trafodaethau clinigol.

Roedd gan y practis gynllun datblygu a ddatblygwyd ganddynt drwy eu Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth.⁵ Roedd hyn yn nodi amcanion y practis yn glir, ac roeddem yn gallu gweld bod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes. Roedd diffyg adolygu gan gymheiriaid ar y pryd oherwydd pwysau cysylltiedig â diwallu galw ymhlith cleifion. O ystyried y gwelliannau rydym wedi nodi ar draws sawl maes, rydym yn cynghori'r practis i annog a chofnodi gweithgareddau gwella, adolygiadau gan gymheiriaid, a dysgu ar y cyd.

Roedd uwch-staff yn mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth, gan ddefnyddio'r fforwm hwn fel modd o gynhyrchu gweithgareddau gwella ansawdd a rhannu arfer da. Roedd y tîm nyrsio hefyd yn mynychu cyfarfodydd nyrsys practis, a oedd yn cynnwys elfen o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac a oedd yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran arferion.

⁵ Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth yw'r term a ddefnyddir ar gyfer clystyrau o bractisau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae clwstwr practisau yn grŵp o feddygon teulu a phractisau, a bennir yn lleol gan fwrdd iechyd lleol unigol y GIG yng Nghymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod polisïau dyblyg/hen bolisïau yn cael eu tynnu, a bod polisïau cyfredol yn hawdd mynd atynt ar gyfer yr holl staff ac yn cael eu diweddaru a'u cyfleu i'r staff yn barhaus.

Rhaid i'r practis ystyried sut i rannu, annog a hybu dysgu, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid a gweithgareddau archwilio a gwella. Rhaid bod mecanweithiau ar waith i dystio bod trafodaethau clinigol a dysgu'n mynd rhagddynt.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Dangosodd trafodaethau â'r staff ac adolygiad o bolisïau a sampl fach o gofnodion staff eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau penodol yn y practis.

Ar adeg yr arolygiad, roedd swydd wag ar gyfer un meddyg teulu. Roedd ymgyrch recriwtio ddiweddar wedi bod yn aflwyddiannus o ran penodi unigolyn i'r swydd, a rhannodd y staff yr heriau o ran recriwtio meddygon i'r ardal. Roedd meddygon locwm yn cyflenwi'r swydd wag. Ar wahân i hyn, roedd tîm staff sefydlog.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, a gwnaethant ddweud eu bod yn hapus yn eu swyddi. Canfuom nad oedd y staff i gyd yn derbyn arfarniadau blynyddol. Rhaid cynnal arfarniadau blynyddol i roi'r cyfle i'r staff dderbyn adborth am eu perfformiad, trafod anghenion hyfforddiant, a nodi a oes angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnynt.

Gwnaethom edrych ar y dogfennau adnoddau dynol a recriwtio a oedd ar waith a chanfod bod polisi a gweithdrefn recriwtio ar waith, a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth. Canfuom nad oedd gwiriadau ar gyfer aelodau newydd o staff yn cael eu cofnodi'n gyson, a gwnaethom gynghori'r staff i wneud hyn i sicrhau bod llwybr archwilio digonol.

Roedd proses ar waith i sefydlu aelodau newydd o staff. Roedd yr adborth a gawsom gan aelodau staff ynghylch prosesau sefydlu yn amrywiol. Canfuom fod y pecyn i staff locwm yn cyfeirio at bractis meddygon teulu (digysylltiedig) arall. Roedd angen addasu hwn i sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ddefnyddiol ar gyfer meddygon locwm.

Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Roedd rheolwr y practis wedi gweithredu system lle'r oedd hyfforddiant gorfodol yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar gyfer yr holl staff. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn gallu gweld ar gip lle'r oedd bylchau mewn hyfforddiant a lle'r oedd angen i staff ddiweddarau eu hyfforddiant. Roeddem yn gallu gweld bod y staff wedi dechrau cwblhau pynciau gorfodol. Roedd angen sylw ar hyn i sicrhau bod y staff yn cwblhau'r holl bynciau gorfodol cyn gynted â phosibl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r holl staff dderbyn arfarniadau blynyddol.

Rhaid cofnodi gwiriadau perthnasol ar gyfer pob aelod newydd o staff.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn derbyn digon o gefnogaeth trwy'r broses sefydlu. Rhaid bod y pecyn i feddygon teulu locwm yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, ddefnyddiol am y practis i helpu i arwain meddygon teulu locwm.

Rhaid i'r staff sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau'n brydlon.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae ein harolygiadau o bractisau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Bydd practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant yn weithredol ac yn strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau meddygon teulu yn diwallu [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am y modd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y datryswyd y pryder
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Glynebwy

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Canfyddiad – Asesiad risg tân:</p> <p>Canfuom nad oedd asesiad risg tân ar waith, fel y mynnir dan reoliadau iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod risgiau tân wedi cael eu hystyried yn llawn i gynnal diogelwch cleifion a staff yn amgylchedd y practis.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella:</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod asesiad risg tân, a gynhelir gan weithiwr proffesiynol digon cymwys, yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl. Dylai asesiadau risg tân gael eu cadw'n</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal 2015, Safon 2.1 – Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae'r staff i gyd wedi cael hyfforddiant diffoddwyr tân ac yn parhau â'u hyfforddiant ar y wefan hyfforddiant gorfodol. Ar hyn o bryd, mae saith aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein, a bydd chwe aelod pellach o staff yn fyddant yn dychwelyd o'u gwyliau a'u habsenoldebau salwch. Mae tystysgrifau ynghlwm. Mae gan yr holl ddiffoddwyr tân newydd hysbysiadau dwyieithog, ac maent wedi'u gosod yn y feddygfa ac o'i</p>	<p>Kerry Hagland</p>	<p>Cwblhawyd erbyn 25 Gorffennaf 2017</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gyfredol a'u monitro, gyda chamau gweithredu i leihau risgiau yn yr amgylchedd ar waith yn barhaus.		hamgylch yn briodol. Rhoddwyd cyfarwyddiadau i'r staff i gyd i fod yn fwy gwyliadwrus o gwmpas y feddygfa, a gofynnwyd i staff y dderbynfa sicrhau bod pob ymwelydd yn llofnodi llyfr ymwelwyr y dderbynfa, a diffodd yr holl offer trydanol nad ydynt yn angenrheidiol – sydd eisoes wedi cael profion dyfeisiau cludadwy. Gwnaed trefniadau i gwmni asesiadau risg tân ddod ar 25 Gorffennaf 2017. Y cwmni a fydd yn cwblhau'r asesiad risg tân bydd Chubb. Bydd yr asesiad risg tân yn dechrau, a bydd hwn yn cynnwys gosod goleuadau argyfwng tân newydd. Bydd dau aelod o staff, a minnau'n un ohonynt, yn cael eu hyfforddi fel wardeiniaid ar 28 Mehefin 2017. Hyfforddiant cydnabyddedig yw hwn â Chymdeithas y Diwydiant Tân. Yna byddaf yn gallu dod â'r hyfforddiant yn ôl i'r feddygfa a gwneud mwy o newidiadau pe bai		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>angen tan fod yr holl waith asesu risg wedi'i gwblhau. Mae goleuadau argyfwng newydd i fod i gael eu gosod gan aelod o staff Chubb. Mae'r larymau tân eisoes yn cael eu gwirio'n wythnosol gan aelod hyfforddedig o'r staff ac yn cael eu monitro gan gwmni o'r enw Dragon. Rydym yn bwriadu cynnal ymarfer tân yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 5 Gorffennaf 2017, lle bydd yr adeilad yn cael ei wacáu. Bydd hyn yn galluogi'r staff a'r cleifion i ymgyfarwyddo â gweithdrefnau ymarferion tân. Mae'r ymarfer tân bellach wedi'i gynnal. Gweler ynghlwm adroddiad gadael mewn argyfwng.</p>		
<p>Canfyddiad – Ymdrin ag argyfyngau meddygol – Cwdyn cyfarpar dadebru, cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng, a hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd:</p> <p>Canfuom stoc a oedd wedi mynd ymhell i'w</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal 2015 – 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a</p>	<p>Mae'r cyfarpar dadebru wedi'i ddiweddarau. Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful – yr adran ddadebru – wedi dosbarthu cwdyn dadebru newydd â chyfarpar</p>	<p>Kerry Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>dyddiad yn y cwdyn cyfarpar dadebru, gan gynnwys bagiau Ambu, ategiadau llwybr anadlu, nodwyddau, caniwlaù, a dyfais sugno â llaw.</p> <p>Ni allem fod yn sicr bod system briodol ar waith ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau i'w defnyddio fel cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng.</p> <p>Ni allem fod yn sicr y byddai'r stoc gyfredol o gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn caniatáu ymarfer diogel wrth reoli argyfyngau meddygol. Ni allai'r practis ddangos ei fod wedi ystyried addasrwydd yr holl gyffuriau a gedwir na'r dulliau y byddai angen eu defnyddio wrth roi'r cyffuriau hynny mewn argyfwng. Canfuom hefyd un daflen feddyginiaethau rydd (heb ddyddiad arni).</p> <p>Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ddiwethaf ym mis Ebrill 2016, ac roeddent i fod i gwblhau hwn eto ym mis Medi 2017. Argymhellir diweddariadau blynyddol. Mae hyn yn gadael bwlch o bum mis</p>	<p>diogelwch; 2.6 Rheoli meddyginiaethau; 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; 7.1 Y gweithlu</p>	<p>cyfredol.</p> <p>Mae'r cwdyn hwn bellach yn cael ei gadw yn ardal y dderbynfa.</p> <p>Mae hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd y staff eisoes wedi'i drefnu ar gyfer 14 Medi 2017. Dyma oedd y dyddiad cyntaf yr oedd y cwmni ar gael i gyflawni ein holl hyfforddiant staff oherwydd roedd gennym ni aelodau o staff oedd ar eu gwyliau hefyd. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein tan fod hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu yn y feddygfa. Mae saith aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein hyd yn hyn, a bydd chwe aelod o staff yn cwblhau hyn wedi iddynt ddychwelyd o'u gwyliau a'u habsenoldebau salwch. Mae tystysgrifau ynghlwm hefyd.</p> <p>Mae rhestr cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi'i chytuno gan</p>	<p>Kerry Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>rhwng mis Ebrill 2017 a mis Medi 2017 pan na fydd y staff yn gyfredol o ran diweddariadau blynyddol gorfodol.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella:</p> <p>Mae angen adolygu'r system ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau i'w defnyddio fel cyffuriau brys i sicrhau ei bod yn briodol.</p> <p>Mae angen adolygu cynnwys y blwch cyffuriau brys yn llawn i sicrhau ei fod yn galluogi ymarfer diogel wrth reoli argyfyngau meddygol. Rhaid i'r practis geisio cyngor ynghylch cynnwys y blwch i sicrhau bod meddyginiaethau priodol i reoli argyfyngau oedolion a chleifion pediatrig. Rhaid cael gwared ar feddyginiaeth rydd sydd yn y blwch. Mae angen tynnu nodwyddau a chaniwlâu y mae eu dyddiadau wedi mynd heibio.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod system ar waith i wirio, monitro, adolygu a newid (pan fo angen) cyfarpar brys a stoc cyffuriau brys yn barhaus.</p>		<p>bartneriaid yn y practis, ac mae cyffuriau ar gyfer oedolion a chleifion pediatrig wedi'u harchebu. Mae'r cyffuriau hyn bellach yn y feddygfa. Rydym wrthi'n chwilio am flwch cyffuriau brys newydd. Bydd rhestr o gyffuriau'n cael ei chadw yn y blwch argyfwng yn y dderbynfa, am fod mynediad at y blwch hwn ar gael ar bob amser pan fo angen gyda chanllawiau ar weinyddu'r cyffuriau. Bydd y blwch hwn yn cael ei wirio gan nyrs y practis yn fisol a bydd y nyrs yn ail-archebu eitemau yn ôl yr angen.</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn aros yn gyfredol o ran hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd. Rhaid i'r staff asesu'r risgiau cysylltiedig â'r blwch pum mis o ran eu hyfforddiant diweddarau blynyddol a sicrhau bod y tîm wedi'i hyfforddi'n ddigonol i ymdrin ag argyfyngau meddygol yn ystod y cyfnod hwn.</p>				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): MRS KERRY HAGLAND

Swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 5 MEHEFIN 2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Glynebwy

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion yn cael eu diogelu ar bob amser. Yn benodol, mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i atal sgysiau rhag cael eu clywed yn y man aros pan fo cleifion yn cael eu gweld yn yr ystafell driniaeth/ystafell y gwaedydd.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r practis yn ystyried caffael trwydded i chwarae cerddoriaeth yn y man aros ger yr ystafelloedd triniaeth/ystafell y gwaedydd.	Mrs K Hagland	1 mis
Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Bydd y practis yn sicrhau bod hysbysebion yn yr ystafell aros mewn gwahanol ieithoedd a fformatau, gan gynnwys yn Gymraeg. Byddwn yn gofyn i hysbysebwr anfon cyflenwad o bosteri	Mrs K Hagland	1 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis adolygu ei ddefnydd o'r system sain ar gyfer galw cleifion i'w hapwyntiadau er mwyn sicrhau bod system ar waith sy'n hygyrch i'r holl gleifion, gan gynnwys y rheini ag anawsterau clyw.</p> <p>Rhaid i'r practis adolygu'r system ar gyfer cofnodi gwybodaeth rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn cofnodion cleifion a sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gyson, a'i bod yn hawdd gweld y wybodaeth hon yn yr holl gofnodion cleifion yn barhaus.</p>	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	<p>atom.</p> <p>Cysylltwyd â chyflenwr telathrebu'r practis ac mae ymweliad safle wedi'i drefnu i adolygu'r system sain ac awgrymu system well ar gyfer galw cleifion, yn arbennig y rheini ag anawsterau clyw.</p> <p>Mae system glinigol y practis eisoes yn cofnodi pan fo cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar eu cofnodion trwy feddalwedd Docman. Bydd y practis yn cefnogi'r staff i gofnodi gwybodaeth yn sgil rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn fwy trylwyr.</p>	<p>Mrs K Hagland</p> <p>Mrs K Hagland</p>	<p>1 mis</p> <p>1 mis</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro ac i gofnodi atgyfeiriadau, gan sicrhau eu bod wedi cael eu derbyn – yn enwedig pan fydd y rhain yn fater o frys. Dylai'r staff ystyried archwilio atgyfeiriadau gyda'r nod o adolygu systemau cyfredol a gwella arferion pan fydd hyn yn bosibl.</p>	5.1 Mynediad amserol	<p>Mae gan y practis system wirio ar waith yn barod i gofnodi a monitro'r holl atgyfeiriadau brys i sicrhau eu bod wedi'u derbyn ac wedi derbyn sylw. Mae ysgrifennydd y practis yn cwblhau'r gwiriad hwn yn wythnosol. Mae'r porth Cyfathrebiadau Clinigol Cymru (WCC Gateway) eisoes yn monitro'r</p>	Mrs K Hagland	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		atgyfeiriadau a dderbyniwyd.		
Dylai gwybodaeth am gŵynion gael ei harddangos yn weladwy a bod yn hawdd i gleifion gael mynediad ati.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Mae'r wybodaeth am gŵynion eisoes yn cael ei harddangos yn weladwy ar yr hysbysfwrdd wrth y fynedfa. Mae'n cael ei harddangos mewn diwyg maint A3.	Mrs K Hagland	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Dylai'r practis adolygu mynediad i'r adeilad er mwyn sicrhau bod yr anawsterau a brofir gan gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn cael eu datrys.</p> <p>Roedd gofyn i raglen ffurfiol o arolygiadau rhestredig a gwiriadau gael ei rhoi ar waith ar gyfer yr holl offer tân yn barhaus. Rhaid i'r practis geisio cyngor ynghylch hyn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân.</p> <p>Rhaid i'r staff sicrhau bod cynlluniau parhad busnes yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am sut i reoli risgiau.</p>	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Mae seiniwr eisoes wrth fynedfa flaen y feddygfa y gall cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu sydd angen cymorth ei bwyso. Bydd y seiniwr yn hysbysu'r derbynyddion bod angen amdanynt wrth y drws blaen.</p> <p>Mae rheolwr y practis ac aelod o'r staff llawn amser wedi derbyn hyfforddiant warden tân gan y cwmni Chubb. Mae'r practis wedi cynnal prawf yn ddiweddar ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng. Mae'r practis eisoes wedi trefnu asesiad risg tân, a bydd hwn yn cael ei ailadrodd o fewn amserlen gywir deddfwriaeth. Mae larymau tân yn cael</p>	<p>Mrs K Hagland</p> <p>Mrs K Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u gwirio'n wythnosol gan aelod o staff. Atgoffwyd y staff i gyd am y ddeddfwriaeth diogelwch tân, ac maent yn bod yn wylriadwrus.</p> <p>Mae cynllun parhad busnes y practis wedi'i ddiweddarau er mwyn i'r staff allu ceisio cyngor.</p>	Mrs K Hagland	Cwblhawyd
Mae angen adolygu'r polisi rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gyflawn. Dylai'r staff dderbyn hyfforddiant rheoli heintiau a dylid cofnodi tystiolaeth o hyn.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r polisi rheoli heintiau wedi cael ei adolygu, ac mae'r staff wrthi'n cwblhau'r hyfforddiant gorfodol hwn ar-lein.	Mrs K Hagland	Cwblhawyd
<p>Rhaid i'r staff sicrhau bod system ar waith i dynnu meddyginiaethau nad oes eu hangen mwyach oddi ar y rhestr presgripsiynau amlroddadwy.</p> <p>Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r llyfr fformiwlâu sy'n berthnasol i'w gwaith a meddu ar wybodaeth amdano. Rhaid i'r practis roi cadarnhad i AGIC o'r llyfr fformiwlâu mae'n ei</p>	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae clerciaid presgripsiynau amlroddadwy'r practis i gyd yn gymwys ar Lefel 1 mewn rhagnodi, ac felly maent yn wybodus wrth sicrhau bod meddyginiaethau nad oes eu hangen mwyach yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr ragnodi. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn defnyddio llyfr fformiwlâu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Atgoffwyd yr holl glerciaid	Mrs K Hagland	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ddefnyddio ar hyn o bryd.</p> <p>Rhaid i'r staff adrodd am wallau rhagnodi fel digwyddiadau arwyddocaol, a rhaid iddynt sôn am adweithiau andwyol i gyffuriau.</p>		<p>presgripsiynau amlroddadwy i adrodd am unrhyw wallau. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi fel digwyddiadau arwyddocaol, ac yna bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd practis.</p>		
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed cyfredol ar lefel sy'n briodol i'w swyddi. Mae hyn yn cynnwys y staff i gyd, a bellach mae gofyn i glinigwyr dderbyn hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 3.</p>	<p>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sydd mewn perygl</p>	<p>Mae'r staff i gyd yn ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar-lein. Trefnwyd eisoes i glinigwyr/nyrsys gwblhau cwrs hyfforddi mewnol i gael Lefel 3, fel y mynnir.</p>	<p>Mrs K Hagland</p>	<p>I'w gwblhau 24 Awst 2017</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn adrodd am bob digwyddiad diogelwch cleifion a phob digwyddiad arwyddocaol yn briodol. Dylid annog a hybu diwylliant o ddysgu yn sgil digwyddiadau.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae'r holl ddigwyddiadau a digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu hadrodd i reolwr y practis, a bydd y profforma digwyddiadau arwyddocaol yn cael ei gwblhau i alluogi'r staff i gyd i drafod/dysgu o'r digwyddiadau.</p>	<p>Mrs K Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Rhaid diweddarau'r polisi cydsynio i sicrhau ei fod yn gyfredol o ran y ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion ddiweddaraf, e.e. dyfarniad Montgomery.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Mae'r polisi cydsynio wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mrs K Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y gwneir gwelliannau i'r gwaith o gadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod yn gyson wrth gysylltu cyffuriau a ragnodir â chyflyrau cleifion • Cysondeb o ran nodi codau Read • Mae angen adolygu crynodebau cleifion i sicrhau cysondeb o ran ansawdd • Cofnodi pan fo gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu ar gyfer cleifion. 		<p>Bydd clinigwyr yn ymgymryd â gwiriadau rheolaidd ar y crynhöwr a'r codau Read i sicrhau y defnyddir codau cyson. Pan fydd cleifion yn derbyn adolygiadau o'u meddyginiaeth, bydd clinigwyr yn cysylltu cyffuriau â chyflyrau cleifion.</p>		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Dylai'r practis sicrhau bod polisiau dyblyg/hen bolisiau yn cael eu tynnu, a bod polisiau cyfredol yn hawdd mynd atynt ar gyfer yr holl staff ac yn cael eu diweddarau a'u cyfleu i'r staff</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Mae ffolder protocolau a pholisiau'r staff i gyd wedi'i diweddarau a bellach yn cynnwys gwybodaeth ddiweddaredig. I sicrhau mynediad ar gyfer y staff i gyd, mae'r ffolder wedi'i lleoli yn y dderbynfa.</p>	<p>Mrs K Hagland</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>yn barhaus.</p> <p>Rhaid i'r practis ystyried sut i rannu, annog a hybu dysgu, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid a gweithgareddau archwilio a gwella. Rhaid bod mecanweithiau ar waith i dystio bod trafodaethau clinigol a dysgu'n mynd rhagddynt.</p>		<p>Mae'r practis wedi ystyried sut i annog a hybu dysgu ac adolygiadau gan gymheiriaid. Rheolwr y practis i gymryd rôl weithredol mewn gweithgareddau datblygu a rhoi gwybod i staff fod y practis yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i ddatblygu eu gyrfaedd. Bydd y practis yn ymddiddori yng nghynnydd pob cyflogai sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau ar-lein neu brosiectau arbennig, ac yn rhannu ei lwyddiannau mewn cyfarfodydd staff. Bydd y practis yn annog cyflogeion i gymryd yr awenau wrth gofrestru gyda chymdeithasau neu sefydliadau proffesiynol. Bydd y practis yn helpu i ddatblygu cyflogeion er mwyn iddynt allu cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau. Mae hyn yn gwneud synnwyr busnes da hefyd, am ei bod yn helpu i osgoi cyflogi staff dros dro i gyflenwi absenoldebau oherwydd gwyliau neu ddiwrnodau o salwch.</p>	Mrs K Hagland	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd y practis yn cofnodi'r holl drafodaethau clinigol yng nghyfarfodydd y practis yn rheolaidd.		
<p>Rhaid i'r holl staff dderbyn arfarniadau blynyddol.</p> <p>Rhaid cofnodi gwiriadau perthnasol ar gyfer pob aelod newydd o staff.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn derbyn digon o gefnogaeth trwy'r broses sefydlu. Rhaid bod y pecyn i feddygon teulu locwm yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, ddefnyddiol am y practis i helpu i arwain meddygon teulu locwm.</p> <p>Rhaid i'r staff sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei gwblhau'n brydlon.</p>	7.1 Y gweithlu	<p>Dim ond un nyrs practis sydd angen derbyn arfarniad blynyddol o hyd. Mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd problemau staffio a recriwtio nyrs practis newydd. Mae'r holl wiriadau perthnasol wedi'u cwblhau ac maent i gyd bellach wedi'u cofnodi. Mae gan yr holl staff locwm becyn i feddygon teulu locwm. Mae hwn bellach wedi'i ddiweddarau i arwain meddygon teulu locwm.</p> <p>Atgoffwyd y staff i gyd i sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn gyflawn, yn arbennig y staff hynny sydd wedi dychwelyd o'u gwyliau blynyddol ac nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant dadebru eto.</p>	Mrs K Hagland	I'w gwblhau erbyn 7 Gorffennaf 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): MRS K A HAGLAND

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 4 Gorffennaf 2017